Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Mr Darren Mepham
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Ionawr 2015

Annwyl Mr Mepham

**Ymweliad monitro Estyn, 2-5 Rhagfyr 2014**

Yn dilyn canlyniad yr arolygiad o'r gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn Hydref 2012, nodwyd bod angen gweithgarwch monitro dilynol ar yr awdurdod, sef ei fonitro gan Estyn.

Cynhaliwyd yr ymweliad monitro cyntaf rhwng 17 a 19 Mawrth 2014 a chynhaliwyd yr ymweliad monitro terfynol rhwng 2 a 5 Rhagfyr 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau'r ymweliadau hyn.

Arweiniodd Mr Tony Bate AEM dîm o dri arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r holl argymhellion a ddeilliodd o'r arolygiad.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau ag aelodau etholedig, uwch swyddogion ac amrywiaeth o staff eraill. Bu'r tîm yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion ers yr arolygiad.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm eu canfyddiadau i Arweinydd y Cyngor, i'r Aelod Cabinet dros Addysg, i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Phobl Ifanc ac i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Plant.

**Canlyniad yr ymweliadau monitro**

Ers yr arolygiad, bu newidiadau sylweddol i'r uwch dîm rheoli yn y gyfarwyddiaeth plant. Roedd y prif weithredwr yn newydd i'w swydd ar adeg yr arolygiad. Ymunodd y cyfarwyddwr corfforaethol newydd ar gyfer plant â'r awdurdod ym Mai 2013 fel pennaeth gwasanaeth. Daeth yn gyfarwyddwr dros dro ym Medi 2013 pan ymddeolodd y cyfarwyddwr blaenorol ac fe'i penodwyd i'r swydd hon yn barhaol yn Nhachwedd 2013. Penodwyd y pennaeth gwasanaeth ar gyfer perfformiad,

strategaeth a chomisiynu mewn strwythur diwygiedig ar gyfer y gyfarwyddiaeth ym Mawrth 2014.

Yn ystod y cyfnod o newid i uwch reolwyr, roedd cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad yn araf ar y cychwyn.  Fodd bynnag, mae cyflymder y newid wedi cynyddu o dan arweinyddiaeth y cyfarwyddwr newydd.

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn arolygiad Hydref 2012.  O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen i Estyn fonitro'r awdurdod lleol mwyach ac mae'n ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol pellach.

**Cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad arolygu yn 2012**

**A1:  Gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 drwy ddefnyddio data ar ddisgyblion unigol i bennu targedau gwelliant mwy uchelgeisiol a chryfhau cysondeb yr her a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar ysgolion i wella**

Cynnydd:  Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yw 20.7% o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 19.2%.  Mae'r lefel cymhwysedd hwn yn gosod yr awdurdod yn y 15fed safle o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn 2014, a'r cyntaf yw'r awdurdod lleol â'r lefel isaf o brydau ysgol am ddim.

Ers yr arolygiad yn Hydref 2012, mae'r deilliannau i ddysgwyr wedi gwella yn yr holl brif ddangosyddion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.  I'r rhan fwyaf o ddangosyddion, bu'r gyfradd wella uwchlaw cyfradd Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf.  Yn 2014, roedd perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r prif ddangosyddion yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg oll gerllaw cyfartaleddau Cymru.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yng nghyfnod allweddol 2 ychydig uwchlaw'r cyfartaledd mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth.  Mae mwyafrif yr ysgolion yn y ddau chwarter canol o gymharu eu perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd (DPC) yng nghyfnod allweddol 2 â pherfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2014, mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg.  Er bod perfformiad mewn mathemateg ychydig islaw'r cyfartaledd, mae'r awdurdod wedi gwella'u perfformiad o gymharu ag awdurdodau eraill ers yr arolygiad.  Mae llawer o ysgolion yn y ddau chwarter canol o gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg, er nad oes unrhyw ysgol yn y chwarter uchaf ar gyfer y DPC yng nghyfnod allweddol 3.

Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â phedwar awdurdod lleol arall yn ne Cymru. Mae ymgynghorwyr her o CSCJES yn defnyddio fframwaith clir i lywio'u gwaith gydag ysgolion. Mae hyn yn dwyn mwy o gysondeb i'r ffordd y mae ysgolion yn cael eu harfarnu ac i natur a lefel yr her, cymorth ac ymyrraeth a allai ddilyn. Mae'r holl ymgynghorwyr her yn arfarnu ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion, ac mae cywirdeb eu harfarnu wedi gwella.

Yn ogystal â chysylltiad uniongyrchol ag ymgynghorydd her, mae ysgolion yng Nghonsortiwm Canolbarth y De yn gweithio'n agosach â'i gilydd i gefnogi ei gilydd trwy amrywiaeth o ddulliau sy'n cael eu trefnu drwy'r CSCJES a'r awdurdod lleol. Megis dechrau datblygu y mae'r dulliau hyn ac mae'n rhy gynnar eto i farnu eu heffaith ar safonau a darpariaeth ar draws ysgolion yr awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid, llywodraethwyr, swyddogion CSCJES, swyddogion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o'u cyfrifoldebau perthnasol. Erbyn hyn, mae dealltwriaeth gliriach o bwy sy'n atebol am berfformiad yn yr awdurdod lleol. Mae systemau priodol ar waith i sicrhau ansawdd gwaith a herio tanberfformio. Yn benodol, mae uwch swyddogion yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda gydag ymgynghorwyr her ac uwch reolwyr CSCJES i sicrhau bod gwybodaeth bwysig am ysgolion yn cael ei rhannu ac i fonitro cynnydd ysgolion sy'n destun pryder.

Mae'r awdurdod yn defnyddio'i bwerau statudol yn fwy effeithiol i ymyrryd mewn ysgolion sy'n destun pryder. Er enghraifft, mae wedi dosbarthu nifer o lythyron rhybudd i ysgolion yn amlinellu ei bryderon am agweddau ar berfformiad ac wedi cyflwyno meysydd i'w gwella, gyda rhybudd y gallai gyhoeddi hysbysiad rhybudd statudol pe na fyddai cynnydd yn ddigonol. Mae ei weithredoedd yn fwy trylwyr ac amserol nag yr oeddent adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod bob amser yn disgrifio gwelliannau disgwyliedig yn ddigon penodol ac nid yw bob amser yn mynd ar drywydd ei bryderon yn gyson.

Mae'r holl ysgolion yn defnyddio data disgyblion unigol i lywio'u targedau ac olrhain cynnydd disgyblion. Er nad yw ysgolion yr awdurdod lleol yn defnyddio un system gyffredin i olrhain cynnydd disgyblion, gall ymgynghorwyr her fynd at ddata disgyblion unigol a'i archwilio er mwyn dilysu priodoldeb y targedau mewn ysgolion. Erbyn hyn, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i ysgolion osod targedau heriol ond realistig a fyddai, o leiaf, yn gosod eu perfformiad uwchlaw'r canolrif ar gyfer ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Pan fydd rhesymau eithriadol gan ysgolion dros osod targed is, caiff y rhain eu hystyried yn ofalus gan yr ymgynghorydd her a'r awdurdod lleol.

At ei gilydd, mae gwelliannau o ran gosod targedau a thrylwyredd a chysondeb yr her i ysgolion wedi cyfrannu at ddeilliannau gwell i ddysgwyr.

**A2: Gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy barhau i ddatblygu'r cydweithio ymhlith swyddogion lles addysg a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd**

Cynnydd: Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad, mae presenoldeb wedi gwella mewn ysgolion uwchradd a chynradd.

Dros y cyfnod hwn, fe wnaeth safle Pen-y-bont ar Ogwr ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru wella o rif 16 i rif 7 ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Fe wnaeth wella 1.9 pwynt canran, o 91.9% yn 2011 i 93.8% yn 2014. Mae'r gwelliant hwn ar gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru. O gymharu ag ysgolion tebyg yn y meincnod prydau ysgol am ddim, mae saith o'r naw ysgol uwchradd yn yr 50% uwch neu well. Mae cyfraddau presenoldeb yn 2014 ar gyfer ysgolion uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr bellach uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru am y tro cyntaf mewn pum mlynedd.

Rhwng 2012 a 2014, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros gerllaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn y cyfnod hwn, mae presenoldeb wedi cynyddu 1.1 pwynt canran o 93.7% i 94.8%. Mae hyn yn debyg i'r gyfradd wella gyfartalog ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r awdurdod lleol wedi gostwng lefel y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn llwyddiannus. Mewn ysgolion uwchradd, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson bellach islaw cyfartaledd Cymru, gan ostwng o 29.5% yn 2012 i 22.7% yn 2014. Yn y sector cynradd, mae hyn wedi gostwng o 12.3% yn 2012 i 11.9% yn 2013, ond mae hyn o hyd uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae ffigurau heb eu gwirio gan yr awdurdod lleol yn awgrymu gostyngiad parhaus mewn ysgolion cynradd yn 2014.

Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau islaw cyfartaledd Cymru ac mae nifer y diwrnodau a gollir fesul gwaharddiad yn parhau ymhlith yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2013, roedd nifer y gwaharddiadau parhaol wedi cynyddu'n sylweddol fel eu bod ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ac mae data heb ei wirio gan yr awdurdod lleol yn awgrymu bod y nifer hwn wedi parhau'n gymharol uchel yn 2014. Sefydlwyd grŵp gorchwyl amlasiantaeth, gan gynnwys penaethiaid uwchradd, i lywio ymarfer, ond mae'n rhy gynnar eto i asesu'r effaith ar ostwng gwaharddiadau yn gyffredinol.

Mae gwaith ar y cyd gan swyddogion lles addysg a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ar wella presenoldeb yn dangos tystiolaeth o gynnydd. Er enghraifft, o ganlyniad i'r gweithdai ar atal ac ymyrraeth gynnar a gynhaliwyd gyda disgyblion sydd â phresenoldeb a phrydlondeb gwael, mae mwyafrif y disgyblion hyn wedi gwella'u presenoldeb. Mae'r gwasanaeth lles addysg yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o wasanaethau i wella presenoldeb. Mae timau amlasiantaeth yn gweithio o ganolfannau cymunedol ar draws y bwrdeistref sirol. O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi gwella'i allu i gynnal strategaethau ymyrryd penodol ar gyfer disgyblion â phresenoldeb islaw 90% mewn ysgolion uwchradd. Mae'r rhain yn cael canlyniadau cadarnhaol o ran gwella presenoldeb ar gyfer mwyafrif y disgyblion hyn.

Mae llawer o ysgolion wedi mabwysiadu'n briodol ddull systematig newydd o reoli presenoldeb. Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystadegau presenoldeb misol i ysgolion ac mae swyddogion lles addysg yn cyfarfod â phenaethiaid yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â phresenoldeb. Mae swyddogion lles addysg a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn cydweithio'n dda ac yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd bugeiliol mewn ysgolion fel mater o drefn. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd da o ddata ar bresenoldeb gydag ymgynghorwyr her ac mae'n dechrau arfarnu effaith yr amrywiol weithgareddau y mae ysgolion yn eu defnyddio i wella presenoldeb.

Mae'r awdurdod wedi rhoi cyfeiriad cliriach i ysgolion ynghylch awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor. Mae wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch cod ymddygiad ar gyfer agwedd 'dim goddefgarwch' at awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor a chyflwyno hysbysiadau cosb benodol ar gyfer absenoldeb gwael. Mae'n rhy fuan eto i weld effaith y mentrau hyn ar wella presenoldeb.

**A3: Cryfhau hunanarfarnu er mwyn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella er mwyn helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau**

Cynnydd: Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

At ei gilydd, mae gan y gyfarwyddiaeth systemau da i ddal, monitro ac adrodd ar ddata perfformiad ar draws ei gwasanaethau addysg, ac olrhain i ba raddau y mae cynlluniau yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarniad yr awdurdod lleol yn arfarnu'r effaith ym mhob maes yn llawn, er enghraifft mewn gwasanaethau cynhwysiant, mae arfarniad yr awdurdod lleol o blant sy'n derbyn gofal, plant sipsiwn a theithwyr, a phlant ag AAA yn gyfyngedig.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gryfhau ei broses asesu perfformiad corfforaethol, sy'n monitro perfformiad pob cyfarwyddiaeth. Mae'r broses hon yn rhoi diweddariadau chwarterol defnyddiol i bob uwch reolwr ar gynnydd o ran ymrwymiadau a dangosyddion perfformiad y gyfarwyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys data ar dueddiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond nid yw'n rhoi digon o ystyriaeth i gymariaethau ag awdurdodau eraill i feincnodi perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr.

Mewn cyfarfodydd chwarterol, mae uwch reolwyr yn craffu ar adroddiadau cyfarwyddiaeth, yn herio perfformiad eu cyfarwyddiaethau ei gilydd ac yn cytuno ar gamau gweithredu i wella perfformiad lle bo'r angen. Mae'r gyfarwyddiaeth plant wedi cymryd rhan gadarnhaol yn y broses hon. Yn y cyfarfodydd hyn, mae agwedd fwy agored at arfarnu tanberfformiad wedi arwain at weithredu mwy buan yn y gyfarwyddiaeth i fynd i'r afael â phroblemau, er enghraifft cwblhau gwerthusiadau staff a chydymffurfio â therfynau amser wrth ddatblygu datganiadau anghenion addysgol arbennig. Mae'r agwedd hefyd yn arwain at gydweithio gwell ar draws cyfarwyddiaethau i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac i weithio'n fwy effeithlon.

Mae grŵp monitro gwella ysgolion, dan gadeiryddiaeth arweinydd y cyngor, yn monitro cynllun gweithredu ôl-arolygiad yr awdurdod lleol yn fanwl. Mae'r cyfarwyddwr yn darparu adroddiadau misol defnyddiol i'r grŵp hwn sy'n cofnodi materion allweddol yn ymwneud â'r argymhellion a'r camau gweithredu a gymerwyd. Mae cofnodion y grŵp yn cofnodi cynnydd yn ôl camau gweithredu yn glir, ond nid ydynt bob amser yn cofnodi arfarniad o'r effaith yn ddigon da.

Yn achos y prosiectau a'r gwasanaethau ehangach yn y gyfarwyddiaeth, caiff systemau effeithiol eu defnyddio i ddal, monitro ac adrodd ar berfformiad, er enghraifft trwy ddefnyddio cronfeydd data, cardiau sgôr 'Deilliannau ar Sail Atebolrwydd' a thempled ar gyfer diweddariadau i feysydd gwasanaeth. Mae sicrhau ansawdd y prosesau hyn yn gwella i sicrhau dilysrwydd a gwerth y wybodaeth a gesglir. Mae'r awdurdod yn gweithio i integreiddio gwahanol systemau ar draws y gyfarwyddiaeth i wella'i allu i fesur effaith gyffredinol ei waith ar blant a phobl ifanc unigol. Drwy'r systemau hyn, mae gan y gyfarwyddiaeth dystiolaeth da i gefnogi hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio'r dystiolaeth hon yn ddigon da yn gyson i lywio arfarniad lefel uchel o effaith y ddarpariaeth.

Cyflwynwyd fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd yn Rhagfyr 2013. Mae'r fframwaith yn glir ac yn diffinio atebolrwydd ar gyfer rheoli perfformiad, yn ogystal ag yn cyflwyno'r prosesau a'r gweithdrefnau angenrheidiol o lefel gorfforaethol i lefel unigol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mewn llawer o ddangosyddion perfformiad yr awdurdod sy'n gysylltiedig â gwasanaethau addysg.

**A4: Gwella ansawdd y wybodaeth a roddir i aelodau etholedig er mwyn iddynt allu herio perfformiad gwasanaethau ac ysgolion yr awdurdod yn fwy cadarn**

Cynnydd: Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal dau gwrs ar ddeall data, gyda'r nod o wella medrau aelodau etholedig. Canolbwyntiodd y cwrs cyntaf ar sut caiff data ei ddefnyddio i ddangos ac arfarnu perfformiad yr awdurdod lleol, a chanolbwyntiodd yr ail gwrs ar sut i ddehongli data lefel ysgol. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol i ddarparu'r hyfforddiant hwn, ac wedi defnyddio data byw ar ysgolion yn briodol. Fodd bynnag, dim ond 36% o aelodau'r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc, a dim ond 22% o'r holl aelodau etholedig, sydd wedi mynychu'r ddau cwrs. Er gwaethaf lefel isel y presenoldeb, mae cofnodion cyfarfodydd craffu diweddar yn dangos bod aelodau'n dechrau gofyn cwestiynau mwy trylwyr wrth herio swyddogion ac arweinwyr ysgol ynghylch perfformiad.

Mae ansawdd gwybodaeth y gwasanaethau addysg sydd ar gael i aelodau etholedig yn gwella, yn enwedig drwy'r defnydd datblygol o system ar-lein 'Info Zone' i rannu gwybodaeth. At ei gilydd, mae gwybodaeth fanwl mewn adroddiadau pwyllgorau i ategu argymhellion ynghylch camau gweithredu yn hysbysu aelodau etholedig yn dda. Mae adroddiadau swyddogion ar berfformiad ysgolion wedi gwella a chaiff y negeseuon pwysig eu cyfleu'n glir.

Mae rôl y cabinet o ran monitro perfformiad ysgolion unigol yn gliriach. Mae aelodau'r cabinet yn monitro adroddiadau arolygu Estyn ar ysgolion yr awdurdod lleol. Pan fydd Estyn yn gosod ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol, mae swyddogion yn rhoi adroddiad i'r cabinet yn esbonio'r barnau ac, yn ddiweddarach, maent yn rhoi adroddiad ar ansawdd cynllun gweithredu ôl-arolygiad yr ysgol.

Hefyd yn ei rhaglen waith, mae'r swyddogaeth graffu yn cynnwys adolygiadau o berfformiad ysgolion yn dilyn arolygiadau Estyn. Mae'r grŵp wedi bwrw golwg ar bedair ysgol hyd yn hyn. Mae penaethiaid a chyrff llywodraethol ysgolion uchel ac isel eu perfformiad yn cael eu galw gerbron Panel Ymgysylltu ag Ysgolion y swyddogaeth graffu. Yn y cyfarfodydd hyn, esboniant eu dulliau, y materion a'r

heriau sydd wedi effeithio ar eu perfformiad.  Ynghyd ag ystyried materion sy'n deillio o arolygiadau Estyn, mae'r panel bellach yn defnyddio'i wybodaeth ei hun i ganolbwyntio ar ysgolion lle y mae problemau neu bryderon, neu lle y bu datblygiadau pwysig a lle y gwnaeth perfformiad wella'n sylweddol.  Megis dechrau datblygu y mae'r agwedd hon ar waith y swyddogaeth graffu.

**A5:  Parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH)**

Cynnydd:  Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad, roedd cynnydd cychwynnol wrth fynd i'r afael â chanran y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn ar ddiwedd blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi bod yn araf.  Yn 2012, fe wnaeth y canran hwn godi, gan osod yr awdurdod ymhlith yr awdurdodau gwaethaf eu perfformiad yng Nghymru.  Fodd bynnag, erbyn 2013, roedd yr awdurdod a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd da yn gostwng y canran hwn fel ei fod yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.  Bellach, mae'r awdurdod yn 13eg o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a'r cyntaf yw'r awdurdod â'r canran isaf o bobl ifanc NACH.  Mae data heb ei wirio ar gyfer 2014, a ddarparwyd gan yr awdurdod, yn awgrymu gostyngiad pellach yn nifer y bobl ifanc NACH.

Yn 2012, barnodd Estyn fod cyfran y bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol a bod eu cyrchfan yn anhysbys yn rhy uchel.  Ers hynny, mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda gyda'i bartneriaid ac, yn 2013, roedd cyfran y bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11 a blwyddyn 13, yr oedd eu cyrchfan yn anhysbys, wedi gostwng yn sylweddol fel ei fod islaw cyfartaledd Cymru.  Yn 2011, roedd cyrchfan 49 o bobl ifanc ym mlwyddyn 11 yn anhysbys.  Yn 2013, roedd hyn wedi gostwng i 9 o bobl ifanc.  Dros yr un cyfnod, roedd nifer y disgyblion ym mlwyddyn 13 â chyrchfan anhysbys wedi gostwng o 79 o bobl ifanc, i 17.

Mae'r awdurdod yn dechrau gweithredu elfennau allweddol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.  Mae cydlynydd ymgysylltu a datblygu yn casglu gwybodaeth ynghyd o amrywiol ffynonellau, yn yr awdurdod ac o bartneriaid eraill, i gynorthwyo ag adnabod pobl ifanc NACH a'r rhai sydd â'r mwyaf o berygl o ymddieithrio, yn gynnar.  Mae'r awdurdod yn defnyddio'i system adnabod cynnar i ddyrannu gweithiwr arweiniol i gefnogi'r bobl ifanc hyn a sicrhau bod ymyriadau addas yn cael eu rhoi ar waith i fodloni eu hanghenion.  Mae ysgolion yn ymgysylltu â'r broses hon yn dda.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid (fel Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith) i sicrhau bod ystod gynhwysfawr o ymyriadau a llwybrau dilyniant addas ar gael i'r bobl ifanc hyn.

**Y camau nesaf**

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru